Adroddiad ar

Ysgol Penybryn

Tywyn
Gwynedd
LL36 9EF

Dyddiad yr arolygiad: Mawrth 2025

gan

Estyn, Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg

a Hyfforddiant yng Nghymru

## Ynglŷn ag Ysgol Penybryn

| | |
|---|---|
| Enw'r darparwr | Ysgol Penybryn |
| Awdurdod lleol | Cyngor Gwynedd |
| Iaith y darparwr | Cymraeg |
| Categori ysgol yn ôl y ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg | Categori C |
| Math o ysgol | Cynradd |
| Cymeriad crefyddol | |
| Nifer y disgyblion ar y gofrestr | 236 |
| Disgyblion o oedran ysgol statudol | 195 |
| Nifer yn y dosbarthiadau meithrin | 24 |
| Canran y disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim dros gyfartaledd o dair blynedd (Canran genedlaethol y disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim dros gyfartaledd o dair blynedd yn y sector Cynradd yw 22.9%) | 11.6% |
| Canran y disgyblion y nodwyd bod ganddynt anghenion dysgu ychwanegol (a) (Canran genedlaethol y disgyblion y nodwyd bod ganddynt anghenion dysgu ychwanegol yn y sector Cynradd yw 11.1%) | 9.2% |
| Canran y disgyblion sy'n siarad Cymraeg ar yr aelwyd | 19.5% |
| Canran y disgyblion sy'n siarad Saesneg fel iaith ychwanegol | 5.9% |
| Dyddiad penodi'r pennaeth | 01/09/2023 |

| | |
|---|---|
| Dyddiad yr arolygiad blaenorol gan Estyn (os yw'n berthnasol) | 17/10/2016 |
| Dyddiad dechrau'r arolygiad | 17/03/2025 |

Daw'r data hwn o ddata mwyaf diweddar y Cyfrifiad Ysgol Blynyddol ar Lefel Disgybl. Efallai y byddant ychydig yn wahanol i'r hyn a arsylwyd yn ystod yr arolygiad.

Mae gwybodaeth ychwanegol ar gael o wefan Llywodraeth Cymru, Fy Ysgol Leol: Fy Ysgol Leol (gov.wales)

a. Mae'r term 'anghenion dysgu ychwanegol' yn cael ei ddefnyddio i ddisgrifio disgyblion sydd ar gofrestr AAA/ADY yr ysgol

## Crynodeb

Mae Ysgol Penybryn yn gymuned gynhwysol gyda phwyslais cryf ar les a datblygiad disgyblion, staff a’r gymuned ehangach. Mae gan y pennaeth weledigaeth glir i sicrhau bod disgyblion yn cael profiadau dysgu difyr mewn amgylchedd dysgu trefnus a gofalgar. Mae’r weledigaeth synhwyrol hon, sy’n cefnogi arferion gwella’r ysgol, yn cyfrannu at ymddygiad da a pharodrwydd i ddysgu ymhlith disgyblion.

Mae’r athrawon a chymorthyddion yn cydweithio’n effeithiol i sicrhau darpariaeth eang a chytbwys mewn cyd-destun cynhwysol a strwythuredig. Maent yn dîm effeithiol o staff sy’n canolbwyntio ar hyrwyddo lles disgyblion yn fwriadus. Maent yn cydweithio’n effeithiol â rhieni ac asiantaethau allanol ac maent yn adnabod anghenion y disgyblion a’u cymuned yn dda.

Ar y cyfan, mae rhediad y sesiynau addysgu yn addas i ddysgu disgyblion ac mae adborth yr athrawon i ddisgyblion i wella’u dysgu yn briodol. Fodd bynnag, nid yw ansawdd addysgu’r athrawon a’r her maent yn ei rhoi i ddisgyblion yn gyson ar draws yr ysgol. Ar adegau, mae tueddiad y staff i or-arwain yn cyfyngu ar allu disgyblion i weithio’n annibynnol a gwneud dewisiadau am eu dysgu.

Mae athrawon yn darparu cyfleoedd cyson a threfnus i’r disgyblion ddatblygu eu medrau’n effeithiol ar draws yr ysgol. Mae hyn yn golygu bod medrau llythrennedd, rhifedd a digidol disgyblion yn datblygu’n gadarn. Mae’r staff yn fodelau iaith effeithiol ac maent yn hyrwyddo medrau llafar y disgyblion yn dda, ar y cyfan. Mae medrau darllen disgyblion yn datblygu’n fwriadus ac maent yn siaradwyr hyderus, yn enwedig yn Saesneg. Er hyn, nid yw agweddau llawer o ddisgyblion at siarad Cymraeg bob amser yn gadarnhaol.

Mae staff a disgyblion yn meithrin perthnasoedd gwaith clòs a theyrngar. Maent yn annog disgyblion i gydweithio a rhannu syniadau a theimladau’n synhwyrol, sy’n datblygu eu teyrngarwch a pharch at bobl eraill yn llwyddiannus. Mae disgyblion yn datblygu medrau personol, cymdeithasol a chreadigol gwerthfawr, sy’n cefnogi eu hymwybyddiaeth a’u gwerthfawrogiad diwylliannol yn gadarn.

## Argymhellion

Rydym wedi gwneud tri argymhelliad i helpu'r ysgol i barhau i wella

A1. Cysoni’r arferion addysgu a darparu adborth effeithiol i herio’r holl ddisgyblion

A2. Darparu cyfleoedd i ddisgyblion wneud dewisiadau annibynnol am sut i ddysgu a chyflwyno eu gwaith

A3. Parhau i wella agweddau disgyblion at siarad Cymraeg

## Beth sy’n digwydd nesaf

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredui fynd i’r afael â’r argymhellion o’r arolygiad.

## Prif arfarniad

Mae Ysgol Penybryn yn gymuned addysgu gefnogol a chynhwysol. Mae’r pennaeth yn gosod cyfeiriad strategol clir ar gyfer yr ysgol. Mae’n cydweithio’n ddiwyd â’r tîm arwain, y staff a’r llywodraethwyr i sicrhau profiadau dysgu diddorol a phwrpasol ar gyfer y disgyblion. Mae gan arweinwyr athroniaeth glir sy’n seiliedig ar gydweithio â chymuned yr ysgol ac maent yn gosod gofal a lles holl aelodau’r gymuned wrth galon eu gweledigaeth.

Mae gan y pennaeth ddisgwyliadau uchel ohono ef ei hun, y staff a’r disgyblion. Mae hyn yn annog disgyblion i ddatblygu agweddau cadarnhaol at eu dysgu. Mae ymddygiad ac ymrwymiad y rhan fwyaf o ddisgyblion tuag at ethos a bywyd yr ysgol yn gadarn dda.

Mae’r rhan fwyaf o athrawon ar draws yr ysgol yn fodelau iaith effeithiol ac maent yn adlewyrchu disgwyliadau uchel ynglŷn â’r Gymraeg a’r Saesneg. Maent yn hybu’r disgyblion i siarad Cymraeg a gwneud defnydd pwrpasol o’r iaith yn ystod gwersi ac o gwmpas yr ysgol. Fodd bynnag, nid yw agweddau llawer o ddisgyblion at siarad Cymraeg bob amser yn gadarnhaol. Yn gyffredinol, nid ydynt yn ymdrechu’n ddigon cyson i gyfathrebu’n gynyddol digymell mewn gwahanol gyd-destunau. Mae’r rhan fwyaf o ddisgyblion yn fwy hyderus a huawdl wrth gyfathrebu yn Saesneg.

Mae gan y rhan fwyaf o ddisgyblion agweddau cadarnhaol at eu dysgu. Mae’r perthnasoedd gwaith a’r parch rhwng staff a disgyblion yn dda. Mae’r rhan fwyaf o ddisgyblion yn cydweithio’n dda â’u cyfoedion ac mae llawer yn gwrando’n ofalus ar athrawon ac yn ymfalchïo yn eu gwaith a’u cynnydd. Maent yn gofyn cwestiynau perthnasol ac yn ymdrechu’n dda i gyfrannu at drafodaethau dosbarth.

Mae medrau ysgrifennu cynnar y rhan fwyaf o'r disgyblion ieuengaf yn datblygu'n gadarn. Mae disgyblion yn defnyddio'u marciau cynnar yn ddeallus, ac erbyn Blwyddyn 2, maent yn dechrau ysgrifennu brawddegau, gan ddangos ymwybyddiaeth effeithlon o atalnodi sylfaenol. Mae llawer o ddisgyblion ar frig yr ysgol yn datblygu eu medrau ysgrifennu estynedig yn y ddwy iaith yn effeithiol.

Mae athrawon yn paratoi ac yn cyflwyno ystod o dasgau mathemateg sy'n cyfatebu'n addas i anghenion disgyblion. Maent yn sicrhau bod y rhan fwyaf o ddisgyblion yn cael eu herio'n briodol, ac o ganlyniad, maent yn datblygu ystod o fedrau rhifedd eang. Yn ogystal, mae athrawon yn darparu cyfleoedd cyfoethog i ddisgyblion ddatblygu eu medrau digidol. Mae hyn yn golygu bod medrau digidol disgyblion yn datblygu'n llwyddiannus ar draws yr ysgol.

Mae athrawon yn darparu cwricwlwm ysgogol sy'n datblygu dealltwriaeth disgyblion o'r byd a'u hardal leol yn effeithiol, er enghraifft drwy ddysgu am hanes y Cymry ym Mhatagonia a'r rheilffordd arfordirol. Yn ogystal, mae athrawon yn cynllunio cyfleoedd pwrpasol i ddisgyblion drafod materion pwysig fel perthnasoedd ac amrywiaeth. Mae disgyblion yn dangos parch tuag at eraill ac yn datblygu eu hymwybyddiaeth o wahanol hunaniaethau.

Er nad yw'r ddarpariaeth awyr agored yn gyfartal ar draws pob dosbarth, mae staff yn darparu amgylcheddau dysgu defnyddiol i gymell llwyddiannau ymysg disgyblion. Mae hyn yn hyrwyddo lles a chynnydd y disgyblion yn effeithiol. Mae ystod synhwyrol o fannau tawel i'w defnyddio pan fo angen, gan gynnwys 'Y Lolfa Lles' a'r 'Den'. Maent yn cael eu defnyddio'n ddeallus gan staff i gefnogi lles disgyblion ac i ymdawelu unigolion mewn achosion o bryder.

Mae'r rhan fwyaf o athrawon yn esbonio tasgau'n glir ac yn cymell disgyblion i gyfrannu at eu dysgu yn ystyriol. Ar y cyfan, mae'r rhan fwyaf o athrawon yn sicrhau rhediad da i wersi ac yn defnyddio ystod o adnoddau gweledol i gefnogi disgyblion. Mae hyn yn ennyn diddordeb y rhan fwyaf o ddisgyblion ac yn eu galluogi i wneud cynnydd da. Fodd bynnag, mae anghysondebau yn nisgwyliadau uchel ac arferion effeithiol athrawon, yn enwedig wrth ddarparu her i ddisgyblion i gyflawni'n uchel. Yn ogystal, nid yw adborth athrawon yn helpu disgyblion i wella'u gwaith yn ddigon effeithiol.

Ar y cyfan, defnyddir cymorthyddion yn effeithiol i ddarparu cefnogaeth werthfawr a bwriadus. Mewn llawer o wersi, lle mae arferion yn effeithiol, mae cymorthyddion yn gwybod pryd i ymyrryd a phryd i hybu dyfalbarhad. Ar rai achlysuron, mae athrawon a chymorthyddion yn tueddu i or-arwain gweithgareddau dysgu ac mae hyn yn cyfyngu ar allu disgyblion i weithio'n annibynnol a gwneud dewisiadau am eu dysgu.

Mae’r ddarpariaeth ar gyfer disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY) yn cael ei chydlynu’n grefftus ac yn diwallu anghenion y rhan fwyaf o ddisgyblion sydd angen cymorth ychwanegol yn effeithiol. Mae’r ysgol yn gweithio’n llwyddiannus mewn partneriaeth ag asiantaethau allanol er mwyn cefnogi disgyblion sydd wedi eu hadnabod ag anghenion penodol. Mae disgyblion yn gwneud cynnydd da yn unol â’u targedau a’u mannau cychwyn.

Mae arweinwyr yn ystyried amrediad eang o dystiolaeth i adnabod blaenoriaethau gwella sy’n canolbwyntio ar ddatblygu’r ddarpariaeth er mwyn gwella profiadau dysgu, cynnydd a lles disgyblion. Mae’r holl dîm yn cyfrannu at y gweithdrefnau hyn, ac mae ganddynt ddealltwriaeth gadarn o’u rolau wrth weithredu er mwyn datblygu’r ddarpariaeth. O ganlyniad, mae gwerthuso a chynllunio ar gyfer gwelliant yn agweddau rheolaidd a chyson o’u gwaith cydwybodol.

Mae arweinwyr yn creu diwylliant ac ethos cadarnhaol i hybu a chefnogi dysgu proffesiynol. Maent yn rhannu syniadau ac arfer effeithiol gyda’i gilydd yn ddeallus ac mae hyn yn cyfrannu’n gadarn at ethos yr ysgol fel sefydliad dysgu. Mae arweinwyr yn annog staff i fyfyrio ar effaith y dysgu proffesiynol ar fedrau disgyblion yn dda, er enghraifft drwy gynnal sgyrsiau proffesiynol cyson i drafod agweddau penodol o addysgu. Mae hyn yn arfogi staff i fyfyrio ar eu haddysgu ac i dreialu egwyddorion newydd.

Mae arweinwyr yn meithrin perthynas effeithiol â rhieni. Mae’r cydweithio a’r cyfathrebu parhaus wedi gwella’n ddiweddar ac yn hybu’r ysgol yn ei chymuned yn llwyddiannus. Mae arweinwyr yn adnabod anghenion y disgyblion a’i chymuned yn dda ac yn cynnig cyfleoedd gwerthfawr i rieni gefnogi medrau a lles disgyblion. Er enghraifft, trwy gynnal gweithdai gyda rhieni a’r disgyblion, maent yn eu cefnogi i ddatblygu eu medrau llythrennedd a rhifedd ac i ddysgu fwy am gynnwys cwricwlwm yr ysgol.

## Gwybodaeth ychwanegol

Nid yw trefniadau’r ysgol ar gyfer diogelu disgyblion yn peri pryder.

Mae trefniadau'r ysgol ar gyfer rheoli’r safle yn destun pryder ac wedi eu dwyn i sylw'r awdurdod lleol.

Mae gan yr ysgol drefniadau priodol ar gyfer hyrwyddo bwyta ac yfed yn iach.

Mae arweinwyr a llywodraethwyr yn rheoli cyllid yr ysgol yn briodol, gan gynnwys defnyddio'r grant datblygu disgyblion.

## Sail dystiolaeth yr adroddiad

Cyn yr arolygiad, bu arolygwyr:

- yn dadansoddi deilliannau o'r holiadur i rieni/gofalwyr a'r holiadur i ddisgyblion, ac yn ystyried barn athrawon, staff a'r corff llywodraethol / aelodau'r pwyllgor rheoli trwy eu hymatebion i'w holiadur

Yn ystod yr arolygiad, bu arolygwyr:

- yn cynnal cyfarfod â rhieni/gofalwyr i glywed eu barn am yr ysgol a'i heffeithiolrwydd
- yn cyfarfod â'r pennaeth, y llywodraethwyr, uwch arweinwyr ac arweinwyr canol ac athrawon unigol i werthuso effaith gwaith yr ysgol
- yn cyfarfod â disgyblion i drafod eu gwaith, gwrando arnynt yn darllen a chael eu barn am agweddau amrywiol ar eu hysgol
- yn cyfarfod â grwpiau o ddisgyblion mewn rolau arwain, fel cynrychiolwyr y cyngor ysgol a'r pwyllgor eco
- yn ymweld â sampl eang o ddosbarthiadau, gan gynnwys grwpiau cymorth dysgu a'r ganolfan adnoddau arbenigol (lle y bo'n briodol), ac yn ymgymryd ag amrywiaeth o deithiau dysgu i arsylwi disgyblion yn dysgu ac i weld staff yn addysgu mewn amrywiaeth o leoliadau, gan gynnwys ystafelloedd dosbarth, grwpiau cymorth (lle y bo'n briodol), ac mewn ardaloedd awyr agored
- yn ymweld â'r ganolfan adnoddau arbenigol yn yr ysgol i weld dysgu'r disgyblion (lle y bo'n briodol)
- yn arsylwi ac yn siarad â disgyblion amser cinio ac amser egwyl, ac mewn sampl o glybiau ar ôl ysgol
- yn mynychu gwasanaethau ac addoli dyddiol ar y cyd
- yn edrych yn fanwl ar brosesau hunanwerthuso'r ysgol
- yn ystyried cynllun gwella'r ysgol ac yn edrych ar dystiolaeth i ddangos pa mor dda roedd yr ysgol wedi bwrw ymlaen â gwelliannau a gynlluniwyd
- yn craffu ar amrywiaeth o ddogfennau'r ysgol, gan gynnwys gwybodaeth am asesu a chynnydd disgyblion, cofnodion cyfarfodydd staff a'r corff llywodraethol, gwybodaeth am les disgyblion, gan gynnwys diogelu disgyblion, a chofnodion hyfforddiant a datblygiad proffesiynol staff

Ar ôl yr arolygiad ar y safle a chyn cyhoeddi'r adroddiad, fe wnaeth Estyn:

- adolygu canfyddiadau'r arolygiad ochr yn ochr â'r dystiolaeth ategol gan y tîm arolygu er mwyn dilysu, safoni a sicrhau ansawdd yr arolygiad

## Atodiad 1: Niferoedd – symiau a chyfrannau

Mae'r adroddiad yn cyfeirio at wahanol symiau a chyfrannau, e.e. *'y rhan fwyaf o ddisgyblion…'* neu *'ychydig iawn o ddisgyblion…'*. Rydym yn defnyddio'r termau hyn i ddisgrifio symiau a chyfrannau fel yr amlinellir yn y tabl isod:

| | |
|---|---|
| bron pob un = | gydag ychydig iawn o eithriadau |
| y rhan fwyaf = | 90% neu fwy |
| llawer = | 70% neu fwy |
| mwyafrif = | dros 60% |
| hanner = | 50% |
| tua hanner = | yn agos at 50% |
| lleiafrif = | islaw 40% |
| ychydig = | islaw 20% |
| ychydig iawn = | llai na 10% |

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.llyw.cymru)

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Cymraeg i Saesneg).**

© Hawlfraint y Goron 2025: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 22/05/2025